Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer Treftadaeth 2033

23/03/2023

See all updates

Mynnwch gip ar sut rydym wedi ystyried hawliau ein cynulleidfaoedd a'n buddiolwyr wrth ddatblygu ein strategaeth 10 mlynedd a'n cynllun cyflwyno diweddaraf ar gyfer 2026–2029.

Atodiad	Maint
PDF Gweld Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Cynllun cyflwyno 2026–2029 as PDF (240.93 KB)	240.93 KB

Fel corff cyhoeddus, rhaid i ni gydymffurfio â rhwymedigaethau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fel y'u hamlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, sy'n berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Rhaid i ni gydymffurfio hefyd ag Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998, sy'n nodi y dylai awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen am hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol gredoau crefyddol, barn wleidyddol neu grwpiau hiliol.

Rydym wedi'n hymrwymo felly i hyrwyddo cyfle cyfartal a sicrhau nad yw ein rhaglenni ariannu, ein mentrau, ein strategaethau, ein polisïau a'n prosesau gwneud penderfyniadau'n cael unrhyw effeithiau andwyol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

Treftadaeth 2033

I gyflawni'r ymrwymiad hwn, rydym wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb o Treftadaeth 2033 a'n cynllun cyflwyno ar gyfer 2026–2029. Gallwch lawrlwytho PDF o'r asesiad o'r dudalen hon.

Mae'r asesiad yn offeryn seiliedig ar dystiolaeth, sy'n ein galluogi i ystyried yr effaith bosibl (negyddol a chadarnhaol) o newidiadau yn ein gwaith ar wahanol grwpiau o bobl. Bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd drwy gydol oes Treftadaeth 2033.

efyd mewn ...

Baddonau Rhufeinig, Caerfaddon © 2017 aroundworld/Shutterstock

Treftadaeth 2033 – ein strategaeth 10 mlynedd